

DATGANIAD ATAL CAETHWASIAETH 2023

Daeth Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 (y "Ddeddf") i rym yn 2015. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod sefydliadau masnachol â throsiant blyneddol dros £36 miliwn yn cyhoeddi datganiad caethwasiaeth a masnachu pobl ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Cyflwynir y datganiad hwn yn unol ag Adran 54(1) o'r Ddeddf, a hwn yw ein datganiad caethwasiaeth a masnachu pobl ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. Cymeradwyodd Bwrdd Cyfarwyddwyr Dŵr Cymru Cyfyngedig (y Bwrdd) y datganiad hwn ar 4 Mai 2023.

Ein Strwythur a'n Busnes

Dŵr Cymru Cyfyngedig, is-gwmni sydd ym mherchnogaeth llwyr Glas Cymru, yw prif gwmni masnachu'r Grŵp. Mae ganddo drosiant blyneddol o dros £800 miliwn a chyfeiri ato fel "Dŵr Cymru" trwy gydol y ddogfen hon. Prif weithgarwch y cwmni yw cyflenwi dŵr a thrin a gwaredu dŵr gwastraff o dan yr Offeryn Penodi a wnaed gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan Ddeddf Dŵr 1989. Glas Cymru yw'r unig gwmni cyfyngedig trwy warant yn y sector dŵr a charthffosiaeth, ac mae hynny'n golygu nad oes unrhyw gyfranddeiliaid ganddo.

Dŵr Cymru yw'r mwyaf ond pump o'r unarddeg cwmni dŵr a charthffosiaeth rheoledig yng Nghymru a Lloegr. Mae'n gyfrifol am ddarparu cyflenwadau parhaus o ddŵr yfed o safon uchel ar gyfer dros dair miliwn o bobl, ac am gludo'r dŵr gwastraff a gynhyrchir i ffwrdd, ei drin a'i waredu mewn ffordd briodol, ac rydyn ni wedi ymrwymo'n llwyr i ddarparu'r gwasanaeth gorau am y gost isaf bosibl.

Gweledigaeth Dŵr Cymru yw Ennill Ffydd ein Cwsmeriaid Bob Un Dydd. Rydyn ni'n deall bod sicrhau'r safonau uchaf o ran llywodraethu'n hanfodol er mwyn ennill ffydd ein cwsmeriaid. Mae ein perthnasau â'n cyflenwyr, a'n penderfyniadau mewn perthynas â'n cadwyn gyflenwi'n elfennau hanfodol bwysig o'n diwylliant ac yn bwysig wrth ennill a chadw'r ymddiriedaeth yna.

Ein Polisiâu

Mae Dŵr Cymru'n gwrthwynebu'n gadarn pob math o gaethwasiaeth, masnachu pobl, llafur plant a mathau eraill o ecsbloetiaeth, a elwir yn "Arferion Caethwasiaeth Fodern" o dan y Ddeddf. Rydyn ni wedi cyfleu'n glir i'n cydweithwyr a'n cyflenwyr na fyddwn ni'n goddef caethwasiaeth a masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi nac yn unrhyw ran o'n busnes Cael pobl i ymddiried ynom i wneud y peth iawn yw un o'n gwerthoedd craidd. Ni fyddem byth yn defnyddio cyflenwyr neu gontractwyr sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth neu fasnachu pobl yn wybodus, ac rydyn ni'n cadw'r hawl i derfynu ein cytundebau ag unrhyw drydydd parti y ceir ei fod wedi bod yn gysylltiedig ag unrhyw weithred neu beth sy'n ymwneud â chaethwasiaeth fodern..

Mae ein Polisi Atal Caethwasiaeth yn disgrifio ymrwymiad Dŵr Cymru i weithredu mewn ffordd foesegol ac ag uniondeb yn nhrefniadau ein cadwyn gyflenwi, ac mae'r mesurau diogelu a roddwyd ar waith yn mynnu bod ein cyflenwyr a'n contractwyr yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Rydyn ni'n adolygu effeithiolrwydd ein polisiâu a'n gweithdrefnau'n gyson er mwyn sicrhau eu bod nhw'n dal i fod yn addas at eu pwrpas.

Mae disgwyl i'n holl gydweithwyr ddilyn ein hegwyddorion arweiniol ar gyfer ymddygiad moesegol yn eu gwaith, ac mae gwerthoedd ein busnes yn cael eu cyfleu trwy nifer o sianelau. Mae gennym bolisiâu ategol i lywio ein cydweithwyr i weithio mewn ffordd sy'n onest ac yn foesegol, a rhoi'r hyder a'r offer iddynt godi unrhyw amheuan am ymddygiad anfoesegol o fewn y sefydliad. Rhoddir copi o'n Cod Ymddygiad i bawb sy'n ymuno â ni yn rhan o'n rhaglen gyflwyno.

Mae ein Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr yn amlygu'r polisiâu a'r gwerthoedd allweddol, ac yn arbennig pwysigrwydd "gwneud y peth iawn", ac yn cyfeirio cydweithwyr at ein polisiâu eraill, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â Diogelu, Llwgrobwro y Llygredigaeth, a Chwythu'r Chwiban. Atgoffir cydweithwyr y dylent godi unrhyw bryderon â'u rheolwr llinell, y Pennaeth Archwilio Mewnol, unrhyw Gyfarwyddwr, neu'r Prif Weithredwr, a'n bod ni'n darparu gwasanaeth trydydd parti annibynnol i godi pryderon neu broblemau trwy e-bost neu dros y ffôn hefyd.

Yn 2022/23 datblygwyd ein Polisi Caffael Cynaliadwy, sy'n ategu ein dull o weithredu mewn perthynas â chaethwasiaeth fodern yn ein cadwyn gyflenwi. Fel un o'r meysydd allweddol o ran ffocws cynaliadwy, mae'r polisi'n cadarnhau y byddwn ni'n gweithio i godi ymwybyddiaeth am y risg o Gaethwasiaeth

Fodern trwy ein cadwyn gyflenwi, yn mynnu cydymffurfiaeth â'n Polisi Atal Caethwasiaeth, yn cynyddu tryloywder yn ein cadwyni cyflenwi mewn meysydd lle gallai fod risg. Mae ein cynllun gweithredu ar gyfer y polisi'n cynnwys mapio risgiau a chyfleoedd o fewn y categorïau allweddol o ran y tebygolrwydd o Gaethwasiaeth Fodern, gyda meysydd risg uwch yn denu rheolaeth ychwanegol wedi ei thargedu mewn contractau, a hyfforddiant ar gyfer partneriaid yn y gadwyn gyflenwi i godi ymwybyddiaeth am Gaethwasiaeth Fodern.

Mae ein Cod Ymddygiad ar gyfer Contractwyr yn ategu'r gofyniad am i'n cadwyn gyflenwi gydymffurfio â'n gofynion ni a'r gofynion deddfwriaethol mewn perthynas â Chaethwasiaeth Fodern. Cyhoeddir ein Cod Ymarfer i Gyflenwyr ar ein gwefan a chyfeirir ato yn ein Hamodau a Thelerau.

Rydyn ni'n aelod grŵp y Cyfleustodau yn Erbyn Caethwasiaeth (gynt Gweithgor Caethwasiaeth Fodern y Cyfleusterau) sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r 26 darparwydd nwy, dŵr a thrydan sy'n cydweithio i rannu arferion gorau a'r gwersi a ddysgwyd, safoni dogfennaeth, datblygu dull cyffredin o ddelio â chyflenwyr a chydweithio i fapio risgiau yn y gadwyn gyflenwi.

Ein Cadwyn Gyflenwi a'n proses diwydrwydd dyladwy

Mae ein cadwyn gyflenwi'n cynnwys tua 2,000 o gyflenwyr gweithredol sy'n amrywio o ran eu maint o fentrau micro bach a chanolig i sefydliadau byd-eang, ac mae eu harbenigedd yn amrywio o gontractwyr gwaith cyfalaf a gwasanaethau gweithredol mawr, i gyflenwyr deunyddiau a nwyddau.

Mae ein system dendro electronig yn mynnu bod darpar-gyflenwyr a chontractwyr yn cadarnhau a ydynt wedi cyflawni unrhyw droseddau o dan Adrannau 1, 2 neu 4 o'r Ddeddf ("Arferion Caethwasiaeth Fodern") ai peidio. Mae ateb anfodddhaol yn sail fandadol ar gyfer eu heithrio o'n prosesau tendro. Mae ein Hamodau a Thelerau'n cynnwys darpariaethau contractiol sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r Ddeddf a'n Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflenwyr. Rydyn ni'n ymarfer y darpariaethau hyn ym mhob cytundeb newydd, wrth adnewyddu cytundebau sy'n bodoli eisoes ac wrth godi archebion prynu ar gyfer cyflenwyr.

Rydyn ni'n dilyn egwyddorion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a'i 12 ymrwymiad cysylltiedig, a ddyluniwyd i ddileu caethwasiaeth fodern a hwyluso arferion cyflogaeth moesegol.

Mae ein cyfres o Amodau a Thelerau safonol yn mynnu'n benodol bod cyflenwyr yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Rydyn ni'n cadw'r hawl i archwilio cydymffurfiaeth ein cyflenwyr, ac yn y pendraw, mae gennym yr hawl i derfynu cytundeb os ceir bod y cyflenwr o dan sylw wedi torri'r gyfraith. Lle nad yw contractau'n seiliedig ar ein ffurf safonol, rydyn ni'n mynnu bod yna ddarpariaeth contractiol sy'n mynnu cydymffurfiaeth â'r ddeddf yn rhan o'n prosesau llywodraethu contractiol.

Mae ein Cod Ymarfer ar gyfer Cyflenwyr yn mynnu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf yn benodol ac mae pob holiadur cyn cymhwyso ar gyfer gwahoddiad i dendro'n mynnu bod darpar-gyflenwyr yn cadarnhau eu cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol cyn y gellir eu dewis i fod yn ddarpar-gyflenwr.

Asesu Risg

Mae ein proses Rheoli Contractau a Chyflenwyr yn enwi Caethwasiaeth Fodern fel un o'r prif feini prawf i'w hystyried wrth asesu risg a'r camau rheoli contractau a chyflenwyr a all fod yn angenrheidiol ar gyfer contractau allweddol yn sgil hynny. Dyrennir lefel rheoli contractau Aur, Arian neu Efydd i gontractau unigol a phennir lefel ac amledd y gwaith monitro cysylltiedig ar gyfer y gwahanol gontractau.

Yn 2022/23, mapiwyd categorïau allweddol ein cadwyn gyflenwi yn erbyn y potensial ar gyfer risgiau o ran caethwasiaeth fodern, a chlustnodwyd y cyflenwyr â'r risgiau uchaf o Arferion Caethwasiaeth Fodern fesul sector, nwyddau neu gynnyrch o fewn eu cadwyni cyflenwi, ac atgoffwyd y sefydliadau hynny am ein disgwyliadau o dan ein Cod Ymddygiad i Gyflenwyr, polisiâu a hyfforddiant ar sylwi ar yr arwyddion o Gaethwasiaeth Fodern, a sut i godi unrhyw bryderon. Mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu mesurau ychwanegol i glustnodi a rheoli risgiau o'r fath o fewn ei gadwyn gyflenwi yn 2023/24.

Recriwtio a Hyfforddi

Mae ein Tîm Datblygu Dawn yn cynnal polisïau recriwtio i amddiffyn rhag caethwasiaeth a masnachu pobl yn ein gwaith ni ein hunain ac, yn benodol, ein bod ni'n dilyn yr arferion cyflogaeth moesegol a bennwyd yng Nghod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Mae Dŵr Cymru'n gyflogwr Cyflogau Byw achrededig ac mae'r cwmni wedi mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol y Sefydliad Cyflogau Byw gan dalu cyflog cychwynnol sy'n uwch na'r isafswm cyflog cenedlaethol i brentisiaid i'n holl brentisiaid a hyfforddeion.

Mae holl aelodau'r tîm Caffael wedi cwblhau ardystiad e-Ddysgu a Phrawf Caffael a Chyflenwi Moesegol y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (CIPS) ac mae Dŵr Cymru wedi llwyddo i ennill achrediad Nod Moeseg Corfforaethol CIPS. Mae hyn yn dangos i gyflenwyr, cwsmeriaid, darparweithwyr a rhanddeiliaid eraill eu bod yn delio â sefydliad sydd wedi ymrwymo i sicrhau fod ei staff wedi cael hyfforddiant i gyrchu a rheoli cyflenwyr mewn ffordd foesegol, a'n bod wedi mabwysiadu gwerthoedd moesegol yn ein dulliau o gyrchu a rheoli cyflenwyr.

Yn 2022/23, llwyddodd Dŵr Cymru i ennill Gwobr Iechyd Corfforaethol Safon Platinwm sy'n cydnabod cyflogwyr cyfrifol sy'n dangos ymrwymiad sefydliadol i gynorthwyo nid yn unig eu cyflogeion, ond cyflogwyr eraill a'r gymuned leol hefyd.

Mesur Effeithiolrwydd

Yn rhan o wythnos Atal Caethwasiaeth yn Hydref 2022, cysylltwyd Hope for Justice a'r Slave Free Alliance i ddarparu ymgyrch fewnol a sesiynau ymwybyddiaeth ar ganfod arwyddion o Gaethwasiaeth Fodern a sut i riportio'r rhain.

Mae Dŵr Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Supply Chain Sustainability School (SCSS) hefyd, sy'n darparu amrywiaeth o adnoddau dysgu, gan gynnwys deunyddiau hyfforddi pwrpasol i godi ymwybyddiaeth am Gaethwasiaeth Fodern.

Yn 2023-24 byddwn ni'n adolygu effeithiolrwydd y prosesau a roddwyd ar waith hyd yn hyn er mwyn clustnodi unrhyw weithgareddau asesu a monitro ychwanegol a allai gynnal gwelliannau parhaus yn y maes hwn.

Llofnod:



Peter Perry, Y Prif Weithredwr

Ar ran y Bwrdd ar 4 Mai 2023